
GWERS 1

TLODI A HAWLIAU DYNOL

Mae'r tair gwers awr hyn yn darparu cyflwyniad i dlodi, archwiliad o'r camddefnydd o hawliau dynol sy'n gysylltiedig â thlodi, trosolwg o ymdrechion gan gyrff anllywodraethol i fynd i'r afael â thlodi a gwybodaeth am ba gamau gweithredol y gall disgyblion eu cymryd. Mae pob gwers yn dod gyda chynlluniau gwersi llawn, taflenni gwaith a sioeau sleidiau PowerPoint sy'n mynd gyda hwy, ynghyd â chlipiau ffilm ar gyfer Gwersi 1 a 3.

Ynglŷn â'r wers hon

Mae'r disgyblion yn adolygu diffiniadau a gwybodaeth allweddol am dlodi a hawliau dynol. Wedyn fe'u cyflwynir i'r cysyniad bod tlodi'n fater hawliau dynol – wedi'i ddarlunio gan y ffilm *Deep Sea – Brwydr cymuned yn erbyn tlodi ac anghyfiawnder*. Bydd y disgyblion yn gwyllo'r ffilm hon, ac yn astudio'r sleidiau PowerPoint sy'n dod gyda hwy, cyn nodi'r camddefnydd o hawliau dynol sy'n gysylltiedig â thlodi y mae'r trigolion wedi'i ddiodef. Dylech gyfeirio at y nodiadau cefndir ar dudalen 12 y pecyn am fwy o wybodaeth am stori Deep Sea.

Amcanion dysgu

Bydd y disgyblion yn gallu:

- esbonio'r termau allweddol 'tlodi' a 'hawliau dynol'
- nodi'r camddefnydd o hawliau dynol sy'n gysylltiedig â thlodi ac y mae trigolion cymuned Deep Sea yn dioddef ohono.

Dysgu blaenorol

Mae'r wers hon yn rhagdybio rhywfaint o ddysgu blaenorol ynglŷn â thlodi a hawliau dynol. Gall y gweithgaredd cyfnewid arbenigol ailadrodd dysgu blaenorol neu ddarparu cyflwyniad cyflym i gysyniadau a ffeithiau allweddol y gellid eu harchwilio'n fanylach mewn gwers ddilynol.

Yr adnoddau sydd eu hangen

Taflen adnoddau 1 – *Gwybodaeth arbenigol ar dlodi* (un ar gyfer pob pâr, hanner y dosbarth)
Taflen adnoddau 2 – *Gwybodaeth arbenigol ar hawliau dynol* (un ar gyfer pob pâr, hanner arall y dosbarth)
Taflen adnoddau 3 – *Nodiadau i'r athro ar Deep Sea*
Taflen waith 1- *Termau allweddol* (un ar gyfer pob disgybl)
Taflen waith 2 – *Astudiaeth achos ar Deep Sea* (un ar gyfer pob disgybl) – i'w defnyddio hefyd yng Ngwers 2
PowerPoint – *Tlodi a hawliau dynol – Gwers 1*
Ffilm: *Deep Sea – Brwydr cymuned yn erbyn tlodi ac anghyfiawnder*

Sut i baratoi

Trefnwch yr ystafell fel bod chwe chlwstwr o fyrddau.

Geirfa

Geiriau Swahili a ddefnyddiwyd yn y ffilm:

Githeri – Stiw sylfaenol o india-corn a chig eidion

Ugali – pryd blawd ŷd o Ddwyrain Affrica

GWERS 1

TLODI A HAWLIAU DYNOL

Cynllun gwers

Amser	Introduction	Adnoddau
0-5 munud	Cyflwyniad Gofynnwch i'r disgyblion ateb y cwestiwn ar sleid 2, gan nodi syniadau a delweddau: pan fyddwch yn clywed y gair 'tlodi', pa feddyliau, geiriau allweddol, delweddau sy'n dod i'ch meddwl? Mae'r disgyblion yn rhannu eu syniadau mewn paru. Wedyn bydd pob pâr yn rhannu gyda phâr arall. Eglurwch yr amcanion dysgu.	Gwers 1 Tlodi a Hawliau Dynol Sleidiau PowerPoint 1-3
Gweithgareddau		
5-30 munud	1. Cyfnewid arbenigol Esboniwch yn y gweithgaredd hwn caiff disgyblion eu cyflwyno i syniadau allweddol am 'dlodi' a 'hawliau dynol' - Gofynnwch i'r dosbarth rannu'n barau. - Rhowch labeli 'arbenigwyr ar dlodi' ar un hanner o'r paru ac 'arbenigwyr ar hawliau dynol' ar yr hanner arall. - Dosbarthwch y Taflenni Adnoddau perthnasol 1 neu 2 i bob pâr, ynghyd â Therman Allweddol (taflen waith 1) i gofnodi gwybodaeth arni. - Trafodwch y gweithgareddau ar sleidiau 4-6. Caniatewch 10 munud i'r disgyblion baratoi a 15 munud i'r disgyblion rannu. - Os bydd amser yn caniatáu, gofynnwch i'r disgyblion roi adborth ar eu canfyddiadau	<i>Gwybodaeth arbenigol ar dlodi</i> (taflen adnoddau 1) – un i bob pâr ar gyfer hanner y dosbarth; <i>Gwybodaeth arbenigol ar hawliau dynol</i> (taflen adnoddau 2) – un i bob pâr ar gyfer hanner arall y dosbarth <i>Therman allweddol</i> (taflen waith 1) – un i bob disgybl <i>Sleidiau PowerPoint 4-6</i>
30-55 munud	2. Tlodi a hawliau dynol Esboniwch nad dim ond diffyg arian yw tlodi. Mae tlodi'n wrthodiad o anghenion a hawliau sylfaenol. Ewch trwy'r pedair prif nodwedd o dlodi a ddisgrifir ar sleid 7 i esbonio hyn yn fanylach. Dywedwch wrth y dosbarth eu bod nhw yn awr yn mynd i wyllo astudiaeth achos o dlodi absoliwt o Nairobi, Kenya, ble mae'r trigolion yn sôn am eu brwydr dros hawliau dynol. Ewch trwy sleidiau 8-9. Dosbarthwch <i>Astudiaeth achos Deep Sea</i> taflen waith 2 ac esboniwch y dasg: i nodi enghreifftiau o gamddefnydd hawliau dynol sy'n gysylltiedig â thlodi yng nghymuned Deep Sea (colofn 1). Ar ddiwedd y ffilm rhowch gyfle i'r disgyblion orffen taflen waith 2, colofn 1 (caiff colofn 2 ei gorffen yng Ngwers 2). Gofynnwch i'r disgyblion siarad am eu henghreifftiau. Gweler <i>Nodiadau i athrawon ar Deep Sea</i> (taflen adnoddau 3) ar gyfer atebion awgrymedig.	<i>Astudiaeth achos ar Deep Sea</i> (taflen waith 3); <i>Nodiadau i'r athrawon ar Deep Sea</i> (taflen adnoddau 3) FFILM: <i>Deep Sea – Brwydr cymuned yn erbyn tlodi ac anghyfiawnder</i> (13 munud) Sleidiau PowerPoint 7-9
55-60 munud	Cyfarfod llawn y grŵp Er mwyn atgyfnerthu'r dysgu, dylai'r disgyblion wneud y gweithgaredd cyfnewid seddau mewn paru. Gofynnwch i'r disgyblion lunio tri chwestiwn yn seiliedig ar yr hyn y maent wedi'i ddysgu yn ystod y wers hon (o'r cyfnewid arbenigol a'r ffilm Deep Sea). Dylai'r disgyblion rannu'n barau a chymryd eu tro i ofyn cwestiynau i'w gilydd.	Sleidiau PowerPoint 10-11

GWERS 1 TAFLEN ADNODDAU 1 GWYBODAETH ARBENIGOL AR DLODI

Sut y diffinnir tlodi?

Mae llawer o ddiffiniadau o dlodi. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ddiffiniadau'n cydnabod bod tlodi'n golygu nid yn unig diffyg incwm ac/neu adnoddau, ond hefyd allgau o'r cyfleoedd sydd ar gael i eraill yn y gymdeithas.

Tlodi cymharol

Pan fydd lefelau incwm ac adnoddau'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol (e.e. 60 y cant) yn ei gwneud yn amhosibl cael safon byw a ystyrir yn dderbyniol yn y gymdeithas mae pob yn byw ynddi. Gall pobl sy'n byw mewn tlodi cymharol brofi diweithdra, incwm isel, tai gwael, gofal iechyd annigonol a rhwystrau i ddysgu, diwylliant, chwaraeon a hamdden, yn ogystal ag allgau cymdeithasol.

Tlodi absoliwt

Cyflwr a nodweddir gan amddifadiad llym o ran anghenion dynol sylfaenol, gan gynnwys bwyd, dŵr sy'n ddiogel ei yfed, cyfleusterau glanweithdra (ee toiledau) gofal iechyd, lloches, addysg a gwybodaeth (ee mynediad at bapurau newyddion, radios, setiau teledu a chyfrifiaduron. Mesurir tlodi absoliwt yn aml yn nhermau incwm – byw ar lai na \$1.25 (tua 76c) y diwrnod. Fodd bynnag, mae'n dibynnu nid yn unig ar incwm ond ar fynediad at wasanaethau (e.e. gwasanaethau cyfreithiol, iechyd, cymdeithasol ac ariannol). Yn aml caiff pobl sy'n byw mewn tlodi absoliwt eu dieithrio o gymdeithas brif ffrwd ac maent yn fwy agored i drais.

Astudiaeth achos ar dlodi cymharol

Mae **Rose** yn rhiant sengl a chanddi dri bachgen o dan 17 sy'n byw gartref. Mae hi wedi'i chofrestru'n anabl ac mae'n derbyn budd-dal analluogrwydd a lwfans byw i'r anabl. Mae hi hefyd yn dioddef o iselder cronig ac mae asthma arni hi a'i bechgyn. Mae'r tŷ'n anaddas i'r teulu gan ei fod ar dair lefel. Mae hi'n ei chael yn anodd cynnal y tŷ.

'Rwyf i wedi bod yn y tŷ hwn ers 14 o flynyddoedd a dyw e heb gael papur ar y wal ers y diwrnod symudais i mewn – does dim gwres canolog a dim posibilrwydd o gael carpedi na leino gan ei fod yn rhy ddrud. Allaf i ddim cael unrhyw un i addurno, allaf i ddim ei fforddio.'

Mae Rose yn gwario £25 yr wythnos ar nwy a thrydan ond mae'r tŷ'n oer o hyd ac mae hyn yn effeithio ar iechyd y teulu.

Mae drafftiau'n dod trwy'r drysau ac mae'n cael effaith ar bawb yn y tŷ yma am ein bod yn oer drwy'r amser. Mae'n rhewi, dim ond y tân nwy sydd gyda ni, does dim byd yn yr ystafelloedd felly mae'n rhaid i chi lapio eich hun gyda'r nos am ei bod mor oer.'

Ffynhonnell: *It doesn't happen here*, papur briffio cryno Adran Weithredol Barnado's yn Yr Alban, 2007

Astudiaeth achos ar Tlodi Absoliwt

Mae **Malawi'n** un o wledydd tlotaf y byd, ac mae mwy na hanner o'i phoblogaeth yn byw ar lai na \$1 y dydd.

Yng nghanolbarth Malawi, mae'r teulu Phiri yn dechrau'r diwrnod am 4.30 am – heb frecwast. Mewn cae ŷd, maent yn defnyddio hof wedi'i gwneud â llaw i drin y tir sydd wedi ei orweithio. Mae'r tir wedi erydu felly gwariodd y teulu Phiri \$15 ar fag o wrtaith y maent yn gobeithio bydd yn para am y flwyddyn. Helpodd eu ffrindiau a'u teulu hwy i'w brynu.

Mae rhedeg allan o fwyd yn gyffredin yn Malawi. Mae'r cnydau'n methu'n aml pan na fydd y glaw yn dod. Ychydig o fisoedd yn gynharach, doedd gan y teulu Phiri ddim byd i'w fwyta ond mangos anaeddfed, a oedd yn eu gwneud yn sâl. Weithiau maent hyd yn oed yn bwyta gwreiddiau planhigion gwenwynig.

Mae gan y Phiris ddyheadau y tu hwnt i gynilo a goroesi. Mae Martha, y ferch, eisiau bod yn ohebydd, ond mae hi'n gwybod ei bod yn debygol na fydd gan ei theulu byth yr arian i'w hanfon i wneud yr hyfforddiant.

Gyda'r nos, mae'r teulu'n gwario 35 sent yn hael ar ginio pysgod i anrhydeddu gwestai. Maent wedi gwario cyfanswm o \$1.25 heddiw. Ond dim ond 94 sent oedd incwm y diwrnod, gan gynnwys y 63 sent a wnaethant eu derbyn gan berthnasau i'w helpu.

Ffynhonnell: *Living on a dollar a day in Malawi* gan Suzanne Marmion, 1 Hydref 2006, www.npr.org

GWERS 1 TAFLEN ADNODDAU 2 GWYBODAETH ARBENIGOL AR HAWLIAU DYNOL

Beth yw hawliau dynol?

Hawliau dynol yw'r hawliau a'r rhyddid sylfaenol y mae gan bob bod dynol hawl iddynt. Maent yn sicrhau y gall pobl fyw'n rhydd a ffynnu, cyflawni eu potensial a chymryd rhan mewn cymdeithas. Maent yn sicrhau y trinnir pobl yn deg a chydag urddas a pharch. Mae gennych hawliau dynol oherwydd eich bod yn ddynol ac ni ellir eu tynnu i fwrdd.

Tanategir hawliau dynol gan werthoedd craidd megis tegwch, parch, cydraddoldeb a rhyddid. Y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (UDHR) yw'r fframwaith hawliau dynol mwyaf enwog a phwysig yn y byd. Isod ceir detholiad o erthyglau o'r UDHR:

Erthygl 5: Ni ddylai neb gael ei boenydio

Erthygl 11: Mae gan bawb yr hawl i gael ei ragdybio i fod yn ddieuog nes iddynt gael eu profi'n euog yn unol â'r gyfraith

Erthygl 19: Mae gan bawb yr hawl i ryddid barn a mynegiant

Erthygl 25: Mae gan bawb yr hawl i safon byw digonol ar gyfer eu hiechyd a'u lles

Erthygl 26: Mae gan bawb yr hawl i addysg

Nid cyfraith yw'r UDHR. Fodd bynnag, cafodd llawer o gyfreithiau (a elwir weithiau'n 'Gonfensiynau') eu hadeiladu ar yr egwyddorion a osodwyd yn yr UDHR. Mae enghreifftiau o gyfreithiau hawliau dynol rhyngwladol yn cynnwys Confensiwn y Cenhedlodd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n amddiffyn hawliau pobl o dan 18 oed a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Boenydio, sy'n amddiffyn unigolion rhag cael eu poenydio a'u trin yn greulon. Mae Pwyllgorau'r Cenhedloedd Unedig yn monitro pa mor dda mae gwledydd yn dilyn cyfreithiau fel y rhain.

Astudiaethau achos hawliau dynol

Ers mis Chwefror 2003, cafodd aelodau'r sefydliad hawliau dynol i ferched **Women of Zimbabwe Arise (WOZA)** eu harestio dro ar ôl tro wrth iddynt gymryd rhan mewn protestiadau heddychlon yn erbyn y sefyllfa gymdeithasol, economaidd a hawliau dynol sy'n gwaethgu yn Zimbabwe. Gwrthodwyd mynediad iddynt yn aml at fwyd, cyfreithwyr a gofal iechyd tra eu bod yn y ddalfa.

Cafodd Jenni Williams, cydlynnydd cenedlaethol Women of Zimbabwe Arise (WOZA) ei harestio 32 o weithiau er 2003. Er gwaethaf y trallodion, mae aelodau WOZA yn parhau i ddangos gwydnwch a dewrder mawr.

Roedd **Patrick Obinna Okoroafor** yn 14 oed pan gafodd ei arestio ym 1995. Erbyn hyn mae ef wedi bod yn y carchar ers 14 blynedd – hanner ei oes. I ddechrau dedfrydwyd Patrick i farwolaeth am ladrata. Yn 2001, pan ddatganodd dyfarniad yr Uchel Lys yn Nigeria bod ei ddedfryd farwolaeth yn anghyfreithlon, newidiwyd ei ddedfryd i un o garchariad amhendant 'yn ystod plaser llywodraethwr' Talaith Imo. Ar 29 Mai 2009, lleihawyd dedfryd Patrick i 10 mlynedd yn y carchar, gan ddechrau'n syth. Os bydd Patrick yn cwblhau ei ddedfryd bydd wedi treulio cyfanswm o 24 o flynyddoedd yn y carchar - am drosedd mae e'n dweud ei fod heb ei chyflawni. Heblaw am oedran Patrick ar adeg ei arestio, roedd llawer o anghysondebau ynglŷn â'i brawf a'i garchariad a ddilynodd. Mae ef hefyd yn honni iddo gael ei boenydio.

Ffynhonnell: www.amnesty.org.uk

GWERS 1 TAFLEN ADNODDAU 3 NODIADAU I'R ATHRAWON AR DEEP SEA

Defnyddiwch y daflen hon i wirio ymatebion y disgyblion ac i gefnogi eu dealltwriaeth. Efallai bydd rhai enghreifftiau'r disgyblion yn gweddu i fwy nag un categori. Esboniwch mai dyma oherwydd bod llawer o hawliau dynol yn gydgyssylltiedig.

	Enghreifftiau yng Nghymuned Deep Sea	Beth allai llywodraeth Kenya a sefydliadau eraill ei wneud i amddiffyn hawliau dynol?
AMDDIFADEDD Gwrthod yr hawl i safon byw digonol, e.e. bwyd, lloches, gofal iechyd, addysg.	Dim mynediad uniongyrchol at ddŵr glân; prinder arian; dim glanweithdra; iechyd a gofal iechyd gwael; tai gwael; diffyg trydan; diffyg bwyd; addysg gyfyngedig.	Gallai llywodraeth Kenya wella eu hamgylchiadau byw, megis casglu sbwriel a chynnal a chadw'r system garthffosiaeth fel maent yn ei wneud ar gyfer y cymunedau cyfagos; gellid darparu cymorth gan sefydliadau i wella amgylchiadau byw i adeiladu ffynhonnau, darparu systemau carthffosiaeth, darparu bwyd/tir amaethyddol i dyfu cnydau.
ANSICRWYDD Gwrthod yr hawl i sicrwydd corfforol, e.e. amddiffyn yn erbyn creulondeb yr heddlu, trais ar sail rhyw a throseddau gynnu.	Trais yn y cartref; dadfeddiannu gorfodol; creulondeb gan yr heddlu a'r llywodraeth yn ystod dadfeddiannu gorfodol; anafu trigolion wrth iddynt brotestio (gan gynnwys plant).	Gallai sefydliadau weithio gyda'r gymuned i addysgu pobl am drais yn y cartref ac i ddarparu cymorth i ddiodefwyr; gallai'r heddlu a'r llywodraeth atal dadfeddiannu gorfodol a darparu lloches ddiogel i'r trigolion; gallai'r llywodraeth ddarparu canllawiau ar gyfer yr heddlu i reoli eu hymddygiad, gan sicrhau y deuir ag unigolion i gyfiawnder ar gyfer unrhyw weithredoedd treisgar a gyflawnir.
DIFFYG GRYM Gwrthod yr hawl i ryddid mynegiant, i brotestio ac i ddylanwadu ar wleidyddiaeth. Gwrthod yr hawl i ryddid gwybodaeth.	Ddim yn cael protestio; gwrthod gwybodaeth am bwy sy'n hawlio'r tir; gwrthod y cyfle i siarad â'r awdurdodau i geisio dod o hyd i ateb.	Gallai'r llywodraeth ganiatáu protest heddychlon; drwy raglenni addysg, gallai'r trigolion ddod yn fwy ymwybodol o'u hawliau cyfreithiol yn nhermau'r tir; gallai'r llywodraeth gytuno i gyfarfod â'r gymuned a gwrando arni er mwyn ceisio dod o hyd i ateb; gallai sefydliadau eraill ymgyrchu i berswadio'r llywodraeth i wrando ar ofynion y gymuned.
ALLGAU Gwrthod yr hawl i gymryd rhan yn llawn yn y gymdeithas. Gwrthod yr hawl i fod yn rhydd o wahaniaethu ac i gael eich trin yn gyfartal.	Cyfleoedd prin ar gyfer gwaith a datblygu sgiliau; caiff trigolion y 'slymiau' eu hallgau o gymunedau cefnog o'u hamgylch.	Gweithio gyda'r llywodraeth a sefydliadau eraill i ddarparu'r sgiliau i'r trigolion y maent eu hangen i gael swyddi; gallai'r llywodraeth a sefydliadau eraill wella'r amgylchiadau byw, fel byddai llai o anghydraddoldeb rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn Nairobi.

Ar gyfer pob cam gweithredu posibl, dylech bwysleisio i fyfyrwyr ei bod yn hanfodol i'r gymuned gymryd rhan yn llawn mewn unrhyw benderfyniadau a fydd yn effeithio ar eu bywydau. Dylech hefyd ystyried sut mae gwahanol bobl yn y gymuned angen gael eu cynnwys, e.e. menywod, plant, pobl ag anableddau. Dylai cymunedau gymryd y rôl flaen o ran gwneud penderfyniadau a chmau gweithredu, gyda chymorth sefydliadau lleol a rhyngwladol allweddol.

GWERS 1 TAFLEN WAITH 1

TERMAU ALLWEDDOL

- Darllenwch eich taflen *Gwybodaeth arbenigol* a nodwch wybodaeth allweddol.
- Cofnodwch y wybodaeth hon isod ar ffurf geiriau allweddol, lluniau a diagramau.
- Ymunwch ag 'arbenigwr' arall a chofnodi beth maent yn ei addysgu i chi yn un o'r bocsys isod.

Enw: _____

Tlodi

Hawliau dynol

GWERS 1 TAFLEN WAITH 2

ASTUDIAETH ACHOS AR DEEP SEA

Enw: _____

	Enghreifftiau yng nghymuned Deep Sea	Beth allai Llywodraeth Kenya a sefydliadau eraill ei wneud i amddiffyn hawliau dynol?
AMDDIFADEDD Gwrthod yr hawl i safon byw digonol, e.e. bwyd, lloches, gofal iechyd, addysg.		
ANSICRWYDD Gwrthod yr hawl i sicrwydd corfforol, e.e. amddiffyn yn erbyn creulondeb yr heddlu, trais ar sail rhyw a throseddau gynnu.		
DIFFYG GRYM Gwrthod yr hawl i ryddid mynegiant, i brotestio ac i ddylanwadu ar wleidyddiaeth. Gwrthod yr hawl i ryddid gwybodaeth		
ALLGAU Gwrthod yr hawl i gymryd rhan yn llawn yn y gymdeithas. Gwrthod yr hawl i fod yn rhydd o wahaniaethu ac i gael triniaeth gyfartal		